# HORTICULTURE WALES

**Developing Supply Chains** **February 2011**

## Marketing workshops

Horticulture businesses across Wales are being given the opportunity to discover ways of successfully marketing their businesses online. This interactive workshop will include hints and tips on how to improve your web presence – "seeing your website through your customer's eyes", how to incorporate social networking tools into your marketing strategy use them to your advantage and avoid common pitfalls.



Jane Morgan, Project Development Officer said " We held similar workshops in Llanrwst and Carmarthen before Christmas and both were so well received that the content is being repeated in March for anyone that missed out".

Attendees feedback from the workshops in December included "absolutely fantastic–really, really interesting and helpful", "very informative and inspiring" and "excellent day".

The workshop will be held on Thursday 3rd March 2011 at Maesmawr Hall Hotel, Caersws, Powys, SY17 5SF.

Attendance is free and lunch will be provided. Places are strictly limited. For more information and a registration form please contact Jane at the office on 01978 293967 or by email horticulturewales@glyndwr.ac.uk

Further workshops are also being planned for later in the year, these will be smaller workshops and more practical sessions. Please do visit www.horticulturewales.co.uk for future events and opportunities to get involved.

**Horticulture Wales will be making a range of retail, wholesale and market data from across the ornamental and edible horticulture supply chains available at the new Market Information Centre at Northop. This will be launched in the coming months and will also hold a wide range of subscriptions and publications and useful information sheets available for all to access.**

GARDDWRIAETH CYMRU
HORTICULTURE WALES
DEVELOPING SUPPLY CHAINS • DATBLYGU CADWYNAU CYFLENWI

Horticulture Wales provides support to businesses involved in both edible and amenity horticulture supply chains within Wales.

**Horticulture Wales Office,**
**Glyndŵr University,**
**Holywell Road,**
**Northop,**
**Mold, CH7 6AR.**
**01978 293967**
**07850 924033**

**horticulturewales@glyndwr.ac.uk**

**www.horticulturewales.co.uk**

Our partners include Glyndwr University, ADAS, Bangor University and the Organic Centre Wales

## Brassica consumption up but returns to growers fall

The UK brassica market is the only market in North West Europe to register an increase in consumer demand according to Mr Wolfgang Ott, Syngenta Area Product Manager for Cabbage in NW Europe. Cabbage sales volumes are up 3.8% to 82,453 tonnes in the 12 months to Oct 2010 according to Kantar Worldpanel data published in Horticulture Week (14.01.2011). When commenting on the Brassica Today website Mr Ott stated that the UK brassica market is well developed compared to the Dutch or the German markets due to a greater range of special cabbage products such as green cabbage (a cross between white and savoy cabbage), spring greens and mini cabbages being available. The increase in consumer demand in the UK as a whole is also replicated in Wales (see table to show percentage changes since 2006).

**Purchased quantities of household food and drink in Wales (averages per person per week) Source: Defra Family Food Survey (30/11/2010)**

| **Category** | **2006 (g/ week)** | **2009 (g/ week)** | **% change** |
|---|---|---|---|
| Fresh and processed vegetables, excluding potatoes | 1032 | 1075 | **4.2** |
| Fresh green vegetables | 198 | 203 | **2.9** |
| Fresh cabbage | 34 | 46 | **35.6** |
| Fresh brussels sprouts | 15 | 14 | **-6.1** |
| Fresh cauliflower | 60 | 63 | **4.0** |

The Brassica Growers Association cite the success of its 2009 PR campaign with a "Save our cauliflower" theme as one of the reasons behind the 11% increase in sales volumes during the two month campaign period. Year on year volume sales of cauliflower increased by 3.8% in the 12 months to October 2010 according to Kantar Worldpanel data published in Horticulture Week (14.01.2011).

Despite the increase in consumer demand, returns to brassica growers are reported to have fallen due to periods of oversupply, adverse weather and rising input costs. The production area for brassicas in the UK has declined by almost a quarter over the past 10 years according to provisional Defra statistics for 2009-2010. The figures show that the UK brassica production area now stands at 26,547ha, a drop of 166ha on the previous year.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# GARDDWRIAETH CYMRU

Datblygu Cadwynau Cyflenwi | Chwefror 2011


## Gweithdai marchnata

Mae busnesau garddwriaeth ledled Cymru yn cael y cyfle i ddarganfod ffyrdd o farchnata eu busnesau yn llwyddiannus ar-lein. Bydd y gweithdy rhyngweithiol yma yn cynnwys cynghorion ac awgrymiadau ynglŷn a sut i wella eich presenoldeb ar y we – “gweld eich gwefan trwy lygad eich cwsmer”, sut i ymgorffori offer rhwydweithio cymdeithasol yn eich strategaeth farchnata, eu defnyddio i’ch mantais eich hun ac osgoi camgymeriadau cyffredin.



Meddai’r Swyddog Datblygu Prosiect, Jane Morgan: “ Fe wnaethon ni gynnal gweithdai tebyg yn Llanrwst a Chaerfyrddin cyn y Nadolig a gan eu bod nhw mor llwyddiannus bydd y cynnwys yn cael ei ailadrodd ym mis Mawrth ar gyf-er unrhyw un wnaeth eu colli”.

Dyma ymateb rhai o’r bobl a fynychodd y gweithdai ym mis Rhagfyr: “hollol wych—gwirioneddol ddiddorol a defnyddiol”, “addysgiadol ac ysbrydoledig iawn”, a “diwrnod ardderchog”.

Cynhelir y gweithdy Ddydd Iau 3 Mawrth 2011 yng Ngwesty Maesmawr Hall, Caersws, Powys, SY17 5SF. Mae’r gweithdy am ddim a darperir cinio. Llefydd yn gyfyng-edig. Am fwy o wybodaeth a ffurflen gofrestru, cysylltwch â Jane yn y swyddfa ar 01978 293967 neu trwy anfon ebost at horticulturewales@glyndwr.ac.uk
Cynhelir gweithdai eraill yn nes ymlaen eleni hefyd, bydd y rhain yn weithdai llai ac yn sesiynau mwy ymarferol. Ewch i www.horticulturewales.co.uk am wybodaeth am ddigwyddiadau a chyf-leoedd i gymryd rhan.

**Bydd Garddwriaeth Cymru yn sicrhau y bydd ystod o ddata marchnad, cyfanwerth ac adwerth o gadwynau cyflenwi garddwriaeth bwyd ac addurniadol ar gael yn y Ganolfan Wybodaeth am y Farchnad newydd yn Llaneurgain. Bydd yn cael ei lansio yn ystod y misoedd nesaf ac yn cynnwys ystod eang o danysgrifiadau a chyhoeddiadau a thaflenni gwybodaeth defnyddiol sydd ar gael i bawb.**

GARDDWRIAETH CYMRU
HORTICULTURE WALES
DEVELOPING SUPPLY CHAINS • DATBLYGU CADWYNAU CYFLENWI

Mae Garddwriaeth Cymru yn cefnogi busnesau sy’n ymwneud â’r cadwynau cyflenwi garddwriaeth bwyd ac addurniadol yng Nghymru.


**Swyddfa Garddwriaeth Cymru,**
**Prifysgol Glyndŵr,**
**Ffordd Treffynnon,**
**Llaneurgain,**
**Yr Wyddgrug, CH7 6AR.**
**01978 293967**
**07850 924033**

**horticulturewales@glyndwr.ac.uk**

**www.horticulturewales.co.uk**


Mae ein partneriaid yn cynnwys Prifysgol Glyndŵr, ADAS, Prifysgol

## Bwyta Brassica ar i fyny ond enillion y tyfwyr yn disgyn

Y farchnad brassica yn y DU yw’r unig farchnad yng Ngogledd Orllewin Ewrop i gofrestru cynnydd mewn galw defnyddwyr, yn ôl Mr Wolfgang Ott, Rheolwr Cynnyrch Ardal Syngenta ar gyfer Bresych yng Ngogledd Orllewin Ewrop. Roedd gwerthiant bresych i fyny 3.8% i 82,453 tunnell yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2010 yn ôl data Kantar Worldpanel a gyhoeddwyd yn Horticulture Week (14.01.2011). Ar wefan Brassica Today, dywedodd Mr Ott fod y farchnad brassica yn y DU yn ddatblygedig iawn o’i chymharu a’r marchnadoedd yn yr Iseldiroedd a’r Almaen o ganlyniad i argaeledd mwy o gynnyrch bresych arbennig megis bresych gwyrdd (croes rhwng bresych gwyn a chrych), llysiau gwyrdd a bresych bach. Mae’r cynnydd mewn galw defnyddwyr yn y DU yn gyffredinol i’w weld yng Nghymru hefyd (gweler y tabl i ddangos newidiadau mewn canrannau ers 2006).

**Faint o fwyd a diod cartref a brynwyd yng Nghymru (cyfartaleddau y pen yr wythnos) Ffynhonnell: Arolwg Bwyd Teuluol Defra (30/11/2010)**

| Categori | 2006 (g/ wythnos) | 2009 (g/ wythnos) | % newid |
|---|---|---|---|
| Llysiau ffres ac wedi’u prosesu, ac eithrio tatws | 1032 | 1075 | **4.2** |
| Llysiau gwyrdd ffres | 198 | 203 | **2.9** |
| Bresych ffres | 34 | 46 | **35.6** |
| Ysgewyll ffres | 15 | 14 | **-6.1** |
| Blodfresych ffres | 60 | 63 | **4.0** |

Dywed Cymdeithas Tyfwyr Brassica mai llwyddiant ei hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus 2009 gyda’r thema “Achubwch ein blodfresych” yw un o’r rhesymau tu ôl i’r cynnydd o 11% mewn gwerthiannau yn ystod yr ymgyrch deufis. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, cynyddodd gwerthiant blodfresych o 3.8% yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2010 yn ôl data Kantar Worldpanel a gyhoeddwyd yn Horticulture Week (14.01.2011).

Er gwaetha’r cynnydd mewn galw defnyddwyr, dywedir fod enillion tyfwyr brassica wedi disgyn oherwydd cyfnodau o orgyflenwi, tywydd gwael a chostau mewnbwn cynyddol. Mae’r ardal gynhyrchu ar gyfer brassica yn y DU wedi gostwng i chwarter bron yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn ôl ystadegau darpariaethol Defra ar gyfer 2009-2010. Dengys y ffigyrau fod ardal cynhyrchu brassica yn y DU yn 26,547ha erbyn hyn, sy’n ostyngiad o 166ha ers y flwyddyn flaenorol.


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government